Antur Teifi
Gwasanaethau Busnes
Business Services

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II

Antur Teifi
Parc Busnes Antur Teifi
Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Gorllewin Cymru
Ffôn: 01239 710238
SA38 9DB
E-bost
asadler@anturteifi.org.uk

'Digwyddiad Cwrdd â Chynhyrchwyr Bwyd Ceredigion'

Roedd casgliad o gynnyrch gorau Ceredigion i'w weld yn nigwyddiad 'Cwrdd â Chynhyrchwyr Bwyd Ceredigion' a gynhaliwyd yn Nhyglyn Aeron ar Ionawr 23ain. Roedd yn amlwg, o'r cynnyrch a welid, sut y daeth Ceredigion i'r brig dros y DU am fwyd o'r ansawdd gorau, mewn adroddiad gan 'UKTV Food, Local Food Heroes 2006'.

Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan 'Wasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II' yn darparu cyfle i gynhyrchwyr i farchnata eu cynnyrch i fwy na 50 o Fusnesau Gwely a Brecwast , Caffis a Gwestai o amgylch y 3 sir, ac mae nifer ohonynt wedi derbyn ymholiadau oddi wrth gwsmeiriad newydd posibl. Roedd yn gyfle hefyd i aelodau'r sector lletygarwch i ddarganfod a rhwydweithio gyda Chynhyrchwyr Bwyd Lleol.

Dywedodd Rheolwr Datblygu Amaeth Antur Teifi, Rhiannon Thomas:

"Dangosodd y digwyddiad amrwyiaeth ac answadd y cynnyrch sydd ar gael o fewn y sir. Prif amcan y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio bwyd a diod o'r safon ucha' o fewn busnesau lleol er mwyn cyfoethogi profiad yr ymwelwyr."

Dywedodd Sheena Thomas o 'Golwg y Môr' a agorodd siop fferm yn Aberporth nôl ym mis Rhagfyr:

"Roedd y digwyddiad yn syniad da a rhoddodd gyfle ardderchog i ni hybu ein cynnyrch, gan fagu diddordeb ac ysgogi nifer o ymholiadau busnes newydd."

Defnyddiodd y pen-cogydd Nick Davies, o Gwmni Hyfforddi Cambrian, amrywiaeth o gynhwysion traddodiadol o Geredigion, gyda nifer helaeth wedi eu darparu gan y cynhyrchwyr, er mwyn creu nifer o ryseitiau blasus yn ei arddangosfa goginio, yn cynnwys Magnel Oen Cymreig a Ffiled Hyrddyn Llwyd o Fae Ceredigion, wedi'i ffrio.

Dangosodd gwerthusiad fod 88% o'r rhai'n bresennol o'r sector lletygarwch yn bwriadu archebu gyda'r cynhyrchwyr y gwnaethant eu cyfarfod, gyda'r mwyafrif yn archebion newydd o ganlyniad i'r digwyddiad. Darparodd y digwyddiad gyfle i fedru cysylltu gyda'r cynhyrchwyr yn uniongyrchol a chreu perthynas glos tra'n gweld a blasu'r cynnyrch,- oedd yn codi mwy o awydd i brynu.

Dywedodd Dewi Williams, Rheolwr Gyfarwyddwr Antur Teifi, ei bod yn bleser gan Antur Teifi fod wedi bod yn ymwneud â'r digwyddiad llwyddianus yma, gan obeithio fod y sawl a gymerodd ran wedi elwa ohono.

Bwriada Antur Teifi, trwy gynllun 'Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion', fanteisio ar y llwyddiant a chynnal digwyddiadau o'r fath eto er mwyn dangos y cyfoeth o gynhyrchwyr bwyd lleol sydd ar gael yng Ngheredigion.

Rhestrwch gyda www.bwydceredigionfood.co.uk

Er mwyn codi proffil y safle we o fewn Cymru a'r Deyrnas Unedig rydym wedi gosod hysbyseb baner 2 dudalen o fewn cylchgrawn 'Welsh Country', mewn chwech rhifyn trwy gydol 2007. Wedi ei sefydlu yn 2004, dyma'r unig gylchgrawn-cefn-gwlad lliw yng Nghymru. Dyblodd ei gylchrediad bron yn y 12 mis diwethaf gyda thros 60,000 o ddarllenwyr; daw 50% o'r tanysgrifwyr o'r tu allan i Gymru. Pobl cefnog, gweithgar a theuluoedd uchelgeisiol gyda diddordebau eang sy'n ei ddarllen yn bennaf. Serch hynny, mae adborth penodol wedi dangos fod gan ddarllenwyr 'Welsh Country' ddiddordeb angerddol mewn bwydydd Cymreig. O ganlyniad, mae'r cylchgrawn yn ehangu ei adran fwyd ac wedi cynhyrchu cyfeirlyfr bwyd o'r enw 'Y Gorau o Gymru' i helpu darllenwyr i ddod o hyd i'r holl fwydydd blasus sydd gan Gymru i'w cynnig. Er mwyn dangos y Gorau o Gymru, mae'r cyfeirlyfr, sydd â gwedd olygyddol iddo, yn cael ei gynnwys o fewn prif dudalennau'r cylchgrawn, ac felly mae o fudd i ddarllenwyr a hysbysebwyr.Gwasanaeth di-dâl yw'r Wefan sy'n cynnig cyfle gwych i farchnata cynnyrch. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gan y Tîm ' Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion' hyd nes y daw'r prosiect i ben yn Rhagfyr 2007.

Os ydych yn gynhyrchwr bwyd a heb fod ar restr y wefan neu os hoffech ychwanegu rhagor o wybodaeth at eich manylion, yna cysylltwch â Rhiannon ar 01239 710238 neu e-bostiwch rthomas@anturteifi.org.uk. Am fwy o fanylion ar Gylchgrawn 'Welsh Country' cysylltwch gyda Jennifer Rose ar 01559 372010.

Dosbarthu wedi ei ddatrys!!!

Fel rhan o'r prosiect rydym wedi sefydlu rhwydwaith dosbarthu bwyd fydd yn cyflenwi cynnyrch o Geredigion i'r sector lletygarwch o fewn i'r Sir. 'Red Kite Couriers' fydd yn darparu'r gwasanaeth tywys a bydd Wendy Jenkins o Antur Teifi yn gyfrifol am yr archebion. Cymerir archebion oddi wrth y sector lletygarwch bob dydd Llun a dydd Iau, a chânt eu dosbarthu ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Os ydych yn cynhyrchu digon i gyflenwi'r sector lletygarwch neu os gwyddoch am unrhyw un fyddai'n hoffi archebu cynnyrch lleol, yna cysylltwch â Wendy ar 01239 710 238 neu e-bost wjenkins@anturteifi.org.uk

Sioe Deithiol Tesco

Daeth tua 130 o gynhyrchwyr i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar yr 8fed o Fawrth 2007 er mwyn cyflwyno'u cynnyrch i brynwyr Tesco. Mae dros 250 o fathau o fwydydd Cymreig yn cael eu gwerthu eisioes gan Tesco, ond maent yn gobeithio ehangu ystod y cynnyrch.

Braf oedd gweld fod llawer o gynhyrchwyr o Geredigion, yn cynnwys The Knobbly Carrot Food Company, The Welsh Mustard Company, Pont Gar Cheese, Celtic Country Wines, Rachel's Dairy a Birchgrove Eggs, wedi manteisio ar y cyfle i gyflenwi Tesco.

Cafodd pob cynhyrchwr fwrdd arddangos, ac roedd ganddynt chwarter awr i gyflwyno'u cynnyrch i brynwr penodedig o Tesco, ac i ateb unrhyw gwestiynau fyddai ganddo.

Dywedodd Julian Evans o'r The Knobbly Carrot Food Company "Mae hwn yn gyfle busnes arbennig o gyffrous i'n cwmni." Bydd raid aros nawr i weld faint o gynnyrch Ceredigion fydd yn ymddangos ar silffoedd Tesco. Cewch wybod yn y rhifyn nesaf o'r cylchlythyr.

Am ragor o wybodaeth, ewch I wefan
www.tesco.com/regionalsourcing/whatsnew.asp

Digwyddiadau Gwneuthurwyr Crefft Ceredigion 2007

Y Bandstand, Aberystwyth, 5ed – 10fed Ebrill

Llanerchaeron 25ain-28ain a 30ain & 31ain Mai

L-

lanerchaeron, 4ydd-8fed Gorffennaf

Pabell fawr Aberaeron, Cae Sgwâr Albion, 20fed—22ain Gorffennaf

Llanerchaeron, 22ain-30ain Awst.

Y Bandstand, Aberystwyth, 5ed-9fed Medi

Am fwy o wybodaeth cysyllter â -

Mike Gaskell ar:

01545 581036

Newyddion Bras

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chynhyrchwyr Crefft Ceredigion ar offeryn marchnata fyddai o gymorth wrth werthu cynnyrch yn uniongyrchol ar gyfer mas-nach trwy Gymru.

Telem@: Datrysiadau TG i'ch busnes

Mae Telem@ yn dathlu deng mlynedd o ddarparu gwasanaethau T.G.a Ch. (Technoleg Gwybodaeth a Chysylltiadau) ledled Cymru.

Mae'r cwmni o Gastellnewydd Emlyn yn cynnig datrysiadau busnes a rhwydwaith T.G.aCh. ynghyd â chefnogaeth a hyfforddiant ar, neu bant o'r safle ac hefyd ystod o wasanaethau gwe a rhyngrwyd.

Dywedodd Richard Grenfell, Rheolwr Gwerthiant a Marchnata: "Mae cwmnïau'n aml yn buddsoddi mewn technoleg newydd heb ystyried yr agwedd ddiogelwch. Mae'n bosib i bob peiriant pen desg fod yn fan mynediad i firws" ac ychwanegodd: " Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cefnogi i fusnesau bach lleol,- gwasanaeth a gynigir fel arfer i ddefnyddwyr TG mwy, ac o'r herwydd fe drefnwyd pecyn cefnogaeth o bell.

Fel cynnig rhagarweiniol i Gynhyrchwyr Bwyd a Chrefftau Ceredigion, mae'n bleser gennym gynnig y gwasanaeth yma am bris arbennig o £6.00 y mis yn cynnwys TAW.

Bydd 3 technegydd hyfforddedig wrth law i helpu defnyddwyr pan fo'r angen."

Am fwy o wybodaeth galwch 01239 712345, ebost:enquiries@telemat.co.uk, neu ewch i www.telemat.co.uk Os hoffech fanteisio ar y cynnig arbennig hwn cysylltwch â Telem@ gan nodi Cyfeirnod CFP 001 Telerau ac amodau yn weithredol.

Cysyllter yn uniongyrchol â Telem@ am fwy o wybodaeth.

ICT Services 01239 712345

Hanfodion Brand: cyflwyniad i frandio

Ariannir 'Design Wales' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn darparu cyngor dylunio annibynnol di-dâl i ddiwydiannau Cymreig. Darperir y gwasanaeth drwy weithdai, cefnogaeth un-i-un, cyhoeddiadau a digwyddiadau'n canolbwyntio ar ddiwydiant.

Er mwyn cyrraedd eu llawn botensial dylai pob cwmni gyflwyno ei hunan mewn dull addas i gwsmeriaid posibl, staff, cyflenwyr a buddsoddwyr. Mae 'Design Wales' wedi datblygu gweithdai 'brandio' a elwir yn Hanfodion Brand (Brand Essentials). Bwriedir y gweithdai ar gyfer cwmniau sydd ar fin neu newydd eu sefydlu, ond heb eto ddatblygu brand, hefyd ar gyfer rhai sy'n defnyddio arbenigedd dylunio allanol am y tro cyntaf.

Mae'r gweithdai di-dâl yn para am ddwy awr a gobeithir cyflwyno dealltwriaeth sylfaenol i'r mynychwyr o broses brandio cynnyrch neu wasaneth, drwy gyngor ymarferol ac astudiaethau achos. Mae Hanfodion Brand yn cynnwys sesiwn lle gall mynychwyr ddechrau drafftio eu cynlluniau eu hunain gyda chymorth ymgynghorydd dylunio. Am fwy o fanylion ynglyn â Hanfodion Brand cysylltwch â Victoria Jones ar 0845 3031400 neu ebostiwch vjones@designwales.org.uk

Er i ni wneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn a chyhoeddiadau eraill y prosiect yn gywir, ni all prosiect Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II na'i bartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, hepgoriadau nac am unrhyw gamau a gymerir ar sail y wybodaeth sydd ynddynt. Nid ydym yn hyrwyddo nac yn dangos ffafriaeth at unrhyw gwmni bwyd na chrefftau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr. Ein nod yw cyhoeddi erthyglau sydd o ddiddordeb i'r darllenwyr. Mae croeso i chi anfon y cylchlythyr hwn at unrhyw un y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddo. Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio, ffoniwch Anna Sadler ar 01239 710238.